

At: Gadeirydd ac Aelodau'r
Pwyllgor Craffu Perfformiad

Dyddiad: 5 Mehefin 2019

Rhif
Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 13 MEHEFIN 2019** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Cynhelir sesiwn frifio ar gyfer aelodau am 9.15am, yn union o flaen y prif gyfarfod. Taer erfynnir ar i aelodau wneud pob ymdrech i fynychu'r sesiwn hon.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 7 - 8)

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2019/20 (copi o ddisgrifiad rôl yr Aelod Craffu a'r Cadeirydd- Is-Gadeirydd ynghlwm)

4 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2019 (copi ynghlwm).

10.05am – 10.10am

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2018/19 (Tudalennau 19 - 54)

Gofyn i'r Pwyllgor i graffu ar Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (copi ynghlwm) ar berfformiad y Cyngor o ran darparu gwasanaethau gofal plant a gofal cymdeithasol yn ystod 2018-2019, cyn ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Mae'r adroddiad hefyd yn darparu'r Cyngor gyda chyfle i amlygu unrhyw faterion neu bryderon o ran perfformiad a allai elwa o gael eu craffu ymhellach.

10.10am – 11am

7 COFRESTR RISG GORFFORAETHOL (Tudalennau 55 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar y diwygiadau a wnaed i Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor.

11am – 11.30am

EGWYL 11.30am - 11.40am

8 EFFEITHIOLRWYDD ASESIADAU EFFAITH AR LES (WIA) (Tudalennau 77 - 94)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (copi ynghlwm) sy'n adolygu effeithiolrwydd dull y Cyngor i asesu effaith ei benderfyniadau a gofyn am farn y Pwyllgor ynghylch sut gall Aelodau gefnogi herio a chraffu'r asesiadau effaith hyn yn effeithiol.

11.40am – 12.15pm

9 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018/19 (Tudalennau 95 - 164)

Ystyried adroddiad gan yr Arweinydd Tîm Cynllunio a Pherfformiad Strategol (copi ynghlwm) sy'n cyflwyno Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2018-2019 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir, a gofyn i'r Pwyllgor benderfynu ac a oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach i ymateb i unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad a amlygwyd yn yr adroddiad.

12.15pm – 12.45pm

10 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 165 - 186)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Hugh Carson Irving

Ellie Chard

Arwel Roberts

Ann Davies

Peter Scott

Martyn Holland

David Williams

Geraint Lloyd-Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned